



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia



Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.  Stay Safe. Stay Learning.

Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell



Parhad dysgu

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn sylweddol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd ar y system addysg ond mae'n parhau i fod o bwys canolog.

Yn ystod y cyfnod hwn, pan na all y rhan fwyaf o ddysgwyr fynychu lleoliadau ac ysgolion yn gorfforol, mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn gweithio ar draws y system addysg mewn nifer o ffyrdd i gynnig cymorth i arweinwyr, llywodraethwyr, ymarferwyr, rhieni, gofalwyr a dysgwyr mewn meysydd blaenoriaeth allweddol.

Lansiodd y Gweinidog Addysg raglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu' yng Nghymru ar 20 Ebrill i gefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes addysg a dysgwyr wrth i ni ymateb i bandemig COVID-19. Fel rhan o'r rhaglen hon mae consortia gwella ysgolion rhanbarthol, ar y cyd ag Estyn a CCAC, wedi datblygu'r cyngor hwn ar gyfer lleoliadau, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion i'w cefnogi yn eu gwaith gyda dysgwyr. Nid yw'r ddogfen hon yn statudol.

Gellir darllen y cyngor hwn ar y cyd â'r cyngor ar barhau â busnes ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion yn ystod pandemig COVID-19. Mae hefyd yn ymwneud â chyngor i rieni/gofalwyr drwy'r rhaglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu'.

Mae canllawiau ar wahân wedi'u darparu ar gyfer staff sy'n gweithio mewn canolfannau ac ysgolion sy'n datblygu darpariaeth effeithiol ar gyfer plant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed.

Hoffem ddiolch i'r partneriaid canlynol am eu cyfraniadau:

- Consortiwm Canolbarth y De
- EAS
- ERW
- GwE
- Estyn
- Llywodraeth Cymru.

Am fwy o wybodaeth ewch i hwb.llyw.cymru/cadwnddiogeldalatiiddysgu



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cyflwyniad

Mae staff mewn ysgolion, UCD a lleoliadau ledled Cymru wedi dangos dewrder mawr mewn amgylchiadau heriol. Maent wedi gorfod addasu'n gyflym i drefniadau newydd ac yn dod i delerau â ffordd newydd o weithio. Ni fydd y ddarpariaeth yn adlewyrchu'r hyn y byddai ysgolion yn ei gynnig yn ystod cyfnodau arferol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried sut y gellir addasu'r fframwaith cyfreithiol i adlewyrchu hyn (gan gynnwys o amgylch y cwricwlwm). O ganlyniad, mae gan ysgolion y cyfle i ystyried pa ddysgu sy'n briodol i'w dysgwyr. Maent yn dangos egni ac ymroddiad wrth greu a chynnal ffyrdd gwahanol o gefnogi dysgwyr a'u cydweithwyr, gan roi blaenoriaeth i les yn ogystal â pharhau i ddarparu profiadau dysgu o bell yn ystod y pandemig COVID-19.

Nod

Mae'r datganiad polisi **Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu** yn nodi:

“...credwn mai'r peth pwysicaf yn y cyfnod hwn o newid a tharfu na welwyd ei debyg yw diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, a gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn.”

Ar draws ein system addysg rydym yn blaenoriaethu cymorth i bob dysgwr i barhau i ddysgu a phontio'n effeithiol yn ôl i'r ysgol pan ddaw'r amser. Felly, mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar waith ysgolion a lleoliadau wrth ystyried sut y gellir cefnogi pob dysgwr i ddychwelyd i addysg gydag agwedd meddwl gadarnhaol i barhau gyda'u dysgu mewn dull mor ddi-dor ag y bo modd.

Er mwyn gwneud hyn i ddigwydd, cynghorir ysgolion, UCD a lleoliadau i wneud pob ymdrech i:

- gadw pob plentyn yn ddiogel ac yn iach
- gynnig mynediad at ofal plant i weithwyr allweddol
- sicrhau bod plant sy'n wynebu'r perygl mwyaf yn cael eu cefnogi
- gefnogi lles y gweithlu addysg
- roi mynediad i ddysgwyr i ddysgu trwy ddulliau digidol neu ddulliau hwylus eraill, a hynny mewn modd ymarferol a syml
- gefnogi dealltwriaeth gyffredin bob partner o sut y gall dysgu o bell effeithiol gynnig profiadau dysgu eang
- gefnogi mynediad i rieni/gofalwyr at gymorth i ddeall eu rôl wrth gefnogi eu plant wrth iddynt ymgymryd â'r dull dysgu o bell
- gefnogi lles a sgiliau sylfaenol dysgwyr drwy gyswllt a chyfathrebu effeithiol.

Bydd gan ysgolion a lleoliadau fynediad i gymorth gan y consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wrth iddynt ddatblygu eu dulliau dysgu o bell. Mae'r ddogfen yma yn cyfeirio at rai modelau y gall ysgolion eu mabwysiadu neu eu haddasu fel rhan o'u strategaeth dysgu o bell.

Egwyddorion sylfaenol

Bydd ysgolion ar wahanol gamau o ran datblygu eu cymorth ar gyfer dysgu yn y cartref. Nid yw'r canlynol yn disodli arfer effeithiol sydd eisoes yn bodoli ond fe all gynorthwyo i fireinio a datblygu ymhellach.

- Mae lles staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn flaenoriaeth allweddol.
- Dylid ystyried yn ofalus beth sy'n ymarferol bosibl ei gyflawni yn y sefyllfa bresennol. Nid ydym yn ceisio dyblygu profiad ysgol o fewn amgylchedd y cartref. Mae staff ysgol, dysgwyr a rhieni/gofalwyr i gyd yn rhannu eu cartrefi gyda gwaith. Mae'n bwysig taro'r cydbwysedd cywir rhwng bywyd cartref a bywyd gwaith i osgoi pwysau diangen.
- Bydd dull gweithredu pob ysgol yn amrywio yn ôl ei gyd-destun, ac argaeledd y sgiliau a'r dechnoleg briodol.

Cefnogi ysgolion i ddarparu dysgu o bell

Fel rhan o ddatblygu a gweithredu'r strategaeth dysgu o bell, bydd y consortia yn gweithio gydag ysgolion i adnabod cyfleoedd i gefnogi arweinwyr a staff addysgu a chynorthwyol. Bydd hyn yn golygu datblygu ar yr arferion da sydd eisoes mewn llawer o ysgolion, a bydd yn cynnwys:

- canllawiau technegol a chymorth gweithredol ar ddefnyddio Hwb a sut i sicrhau bod pawb yn ddigidol ddiogel
- cael mynediad at ddysgu proffesiynol ar y we ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol;
- cefnogaeth i ddefnyddio adnoddau technegol megis Timau Microsoft
- modelu sut ddylai'r profiad a'r ddarpariaeth edrych ar gyfer gwahanol oedrannau a galluoedd
- modelu'r profiad yn ei gyfanrwydd dros gyfnod estynedig
- cefnogi ysgolion i fodloni anghenion rhieni/gofalwyr mewn gwahanol amgylchiadau
- edrych ar ffyrdd gwahanol i gefnogi dysgwyr a rhieni/gofalwyr nad oes ganddynt fynediad i dechnoleg ddigidol
- datblygu profiadau dysgu sy'n gweddu orau i amodau'r dysgwyr a'r rhiant/gofalwr
- adeiladu ar y cydweithio sydd eisoes yn digwydd i gefnogi'r dysgu hwn ar draws eu hysgol a rhwydweithiau o ysgolion, ble'n bosib.

Am fwy o wybodaeth ac arweiniad technegol ar y defnydd gorau a mwyaf diogel o'r adnoddau sydd ar gael ewch i [wefan Hwb](#).

Dylai ysgolion gadw yn agos at eu polisiau diogelu wrth benderfynu a yw ffrydio byw yn ffordd briodol o gynnal gwersi. Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i ddefnyddio ffrydio byw, wedyn dylai ysgolion gyfeirio at y 'ddogfen ganllaw Cadw'n ddiogel. Dal ati i Ddysgu. Egwyddorion ac arferion diogelu ar gyfer ffrydio byw' ac unrhyw ganllawiau perthnasol gan yr awdurdod lleol.

Egwyddor tegwch

Yn yr ystyr hwn, mae'r egwyddor o degwch yn golygu'r ymrwymiad i bob dysgwr gael mynediad at bob agwedd ar ddysgu a phrofiad. Ni fydd y ddarpariaeth yn adlewyrchu'r hyn y byddai ysgolion yn ei gynnig yn ystod cyfnodau arferol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried sut y gellir addasu'r fframwaith cyfreithiol i adlewyrchu hyn (gan gynnwys o amgylch y cwricwlwm). Mae gan ysgolion y cyfle i ystyried pa ddysgu sy'n briodol i'w dysgwyr a hynny ar sail:

- amser i gynnal a datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol
- datblygu gwydnwch a myfyrio ar les personol
- chynnig cyfleoedd i gynnal cysylltiadau ag athrawon, staff cynorthwyol a chydweithwyr yn ystod y cyfnod hwn o ymbellhau cymdeithasol.

Wrth ystyried y pwyntiau uchod yn ofalus, mae modd penderfynu ar y math mwyaf priodol o ddysgu o bell. Awgrymir, o bosib, mai darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu'n annibynnol, yn eu hamser eu hunain, sydd orau ar hyn o bryd. Fel hyn, gall athrawon a staff cynorthwyol greu ystod o brofiadau i ddysgwyr weithio drwyddynt yn eu hamser eu hunain, fel eu bod nhw'n cael amser i dreulio'r cynnwys a'r dysgu.

Dylid sicrhau tegwch hefyd i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg a'u rhieni yn y ddarpariaeth a gynigir drwy ddysgu o bell. Wrth ystyried hyn, dylai ysgolion a lleoliadau fod yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen ar rieni/gofalwyr i gefnogi dysgu yn y cartref, yn enwedig os nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Modelau dysgu o bell

Mae sawl ffordd o fynd ati i gyflwyno dysgu o bell effeithiol, a bydd y **modelau enghreifftiol** yn anelu i gefnogi ysgolion i ystyried sut orau i gynnal eu dysgwyr dros y cyfnod hwn. Ynghyd â'r modelau enghreifftiol, bydd canllawiau pellach ar gynllunio ac asesu yn cael eu darparu.

Bydd modelau enghreifftiol o sut allai hyn edrych yn amrywio yn ôl natur ac oedran y dysgwr, a chyd-destun yr ysgol. Mae'n bwysig bod yn realistig o ran yr hyn y gellir ei gyflawni gan y bydd hi'n cymryd mwy o amser, o bosibl, i gwblhau tasgau oherwydd amryw o ffactorau.

Bydd yn rhaid i staff addysgu a chynorthwyol, rhieni/gofalwyr a dysgwyr gydweithio'n agos i sicrhau dysgu o bell effeithiol tra bydd yr ysgolion ar gau. Bydd ystyriaethau pwysig y bydd yn rhaid i bob ysgol eu cysidro er mwyn sicrhau cyswllt a chyfathrebu effeithiol i gefnogi lles a sgiliau sylfaenol dysgwyr.